**Cyngor Cymuned Dolbenmaen**

**Crynodeb o gofnodion y cyfarfod misol**

**Dyddiad:**

4ydd Medi, 2025

**Presennol**

Richard Williams (Cadeirydd), Enid Egginton (Garndolbenmaen), Huw Pritchard (Pentrefelin), Richard Parry, Edward Evans (Bryncir), John Till, Megan Lloyd Williams (Golan), Iddon Edwards (Penmorfa), Gwilym Evans (Prenteg), Cynghorydd Stephen Churchman (Cyngor Gwynedd)

**Ymddiheuriadau**

Cynghorydd June Jones (Cyngor Gwynedd), Gwenno Emlyn Huws, Jess Williams (Penmorfa), John Jones (Garndolbenmaen), Raymond Jones (Pentrefelin)

**Datgan Buddiant**

Gwilym Evans (Eitem 16)
Megan Lloyd Williams (Eitem 16)

**Penderfyniadau**

**Trwsio Wal Mynwent Llanfihangel y Pennant** - Penderfynwyd derbyn pris Wayne Mitchelmore.

**Torri'r Goeden ym Mynwent Llanfihangel y Pennant** – Penderfynwyd derbyn pris gan Wasanaethau Coed GBA.

**Ceisiadau Grant** - Mae'r Cyngor Cymuned wedi bod yn llwyddiannus yn derbyn grant Gwynedd Ni gan Gyngor Gwynedd er mwyn prynu offer fideo-gynadledda i'r neuaddau pentref a hefyd hysbysfwrdd newydd i Benmorfa. Penderfynwyd ffurfio is-bwyllgor i ymgymryd ar brosiect yma. Cynigwyd yr enwau canlynol: Iddon, Steve,Gwilym, Raymond a John Till. Clerc i gysylltu gyda'r neuaddau pentref i gychwyn i weld os ydynt yn fodlon derbyn y rhodd a hefyd storio'r offer.

Gan ein bod wedi bod yn llwyddiannus gyda Grant Ardal Ni, adroddodd y Clerc ei bod wedi tynnu cais yn ôl o Gronfa Cymunedau Eryri gan ein bod yn hawlio am yr un pethau.

**Cynllunio**

**Rhestrau:**
Gorffennaf – 30/6, 7/7, 14/7, 21/7 a 28/7
Awst - 4/8, 11/8, 18/8

**C25/0479/36/DT -** Cartref, Pentrefelin, LL52 0PU
Estyniad un llawr gyda newidiadau i ffenestri – Ni dderbyniwyd ateb i'r cais. Dyddiad wedi mynd heibio.

**C25/0346/36/LL -** Chwarel Bryncir, Llystyn Gwyn, Bryncir, LL51 9LX - Codi a gweithredu offer sypynnu concrit sefydlog, 3 seilo deunyddiau ac offer cysylltiedig i ddisodli offer a seilo symudol presennol. Ni dderbyniwyd ateb i'r cais. Dyddiad wedi mynd heibio.

**C25/0522/36/RC -** 1 Cae'r Coed, Garndolbenmaen, LL51 9TQ
Tynnu cytundeb Adran 106 angen lleol – Dim gwrthwynebiad.

**NP2/16/451C -** Tir ger Pen y Bryn, Penmorfa, LL49 9SB
Adeiladu un tŷ (dosbarth defnydd C3). Dim gwrthwynebiad.

**C25/0575/36/YA -** Ystum Cegid Uchaf, Garndolbenmaen, LL51 9PJ - Codi adeilad amaethyddol ar gyfer porthiant anifeiliaid. Dim gwrthwynebiad.

Ychwanegwyd:

**C25/0612/36/LL -** Tyddyn Ysguboriau Tabor Lane, Pentrefelin, Criccieth, Gwynedd, LL52 0RA. Dim gwrthwynebiad.